Prifysgol Abertawe Swansea University

GIG CYMRU NHS WALES — Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

# Adolygiad thematig

marwolaethau plant trwy hunanladdiad tebygol 2013-2017

## Beth wnaethom ni:

- Adolygu llenyddiaeth
- Adnabod marwolaethau plant o gronfa ddata'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant (2013-2017)
- Cynnal trafodaethau panel traws-sector

## 33 plant wedi'u cynnwys yn yr adolygiad:

**Oedran**

- Roedd **57%** rhwng 16-17 oed

**Rhyw**

- **30%** benyw
- **70%** wrywod

Roedd gan **33%** hanes o gamddefnyddio sylweddau

Roedd gan **24%** hanes o gamddefnyddio alcohol

Roedd gan **48%** hanes o hunan niweidio

Roedd gan **24%** hanes o gamdrin neu ymosodiad rhywiol

**33%** yn hysbys i'r CAMHS

## MATERION A NODWYD:

- Diffyg ymwybyddiaeth o ran pwysigrwydd hunan-niweidio fel ffactor risg neu gyfle ar gyfer ymyriad
- Plant mewn gofal
- Diffyg Y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol
- Profiad Niweidiol yn ystod plentyndod yn cynnwys camdrin domestig a gamdrin rhywiol
- Tarfu ar drefniadau lle byw
- Anawsterau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Profedigaeth
- Rhannu gwybodaeth
- Bod yn rhieni ifanc
- Dedfryd o garchar
- Camddefnyddio sylweddau
- Tlodi
- Gwarth

## Cyfleoedd na ddylid eu methu:

### Rheoli hunan-niweidio:

Gweithredu canllawiau NICE (y Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal) yn llawn ar gyfer rheoli hunan-niweidio gan blant a phobl ifanc.

### Atal camddefnyddio alcohol a sylweddau:

Gweithredu parhaus i atal plant a phobl ifanc gael gafael ar alcohol, a gweithredu canllawiau NICE yn llawn i atal camddefnyddio sylweddau.

### Rhannu gwybodaeth yn well:

Ymchwilio sut y gellir rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau addysg nad ydynt dan reolaeth y wladwriaeth (megis ysgolion preifat) a gwasanaethau statudol eraill.

### Lliniaru effeithiau profiadau niwediol yn ystod plentyndod:

Uchafu darpariaeth a mynediad gan sicrhau parhau i ymgysylltu gydag ymyriadau yn achos plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod megis camdrin rhywiol, ymosodiad rhywiol neu gamdrin domestig, ac ymgysylltu gyda'r byrddau diogelu i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd diogelu plant rhag effeithiau camdrin yn y cartref a chamdrin rhywiol i atal hunanladdiad a hunan-niweidio.

### Codi'r oedran cyfranogiad mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant:

Ymchwilio i fecanweithiau i sicrhau bod plant a phobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn cael cefnogaeth mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn cynnwys hyfforddiant seiliedig ar waith.

### Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth:

Ymchwilio i ddulliau o gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o: hunan-niweidio a ffactorau risg eraill ar gyfer hunanladdiad; cynllunio diogelwch; cymorth wrth geisio a chael mynediad i wasanaethau a mynd i'r afael â stigma, wedi'u seilio ar dystiolaeth.